

## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i'r blwch negeseuon e-bost [CRIA@gov.wales](mailto:CRIA@gov.wales)

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc

Fel yr amlinellwyd yn Adran 1, mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn canolbwyntio ar asesu'r effeithiau caniatáu i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2020 ymlaen. Mae hyn yn dilyn yr [Asesiad Effaith Integredig ar y sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' o 29 Mehefin ymlaen](#), a'r [Asesiad Effaith Integredig sy'n cwmpasu ymateb cychwynnol y sector addysg i bandemig COVID-19](#) a gyhoeddwyd ar 1 Hydref.

Gwyddom bellach fod y risg i blant eu hunain o fynd yn ddifrifol wael o COVID-19 yn isel iawn a bod y rhan fwyaf o blant heintiedig yn cael symptomau ysgafn neu'n asymptomatig, ac ychydig iawn sy'n datblygu clefyd difrifol neu glefyd sy'n bygwth bywyd.

Gan ystyried y dystiolaeth wyddonol, ac yn unol ag [argymhelliad](#) Grŵp Cyngor Technegol Cymru (TAG), penderfynwyd caniatáu i bob dysgwr ddychwelyd i'w hysgolion/leoliadau ym mis Medi.

Bydd cael ein dysgwyr yn ôl i'r ysgol neu leoliadau cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl yn dod â manteision cadarnhaol mewn sawl maes, gan gynnwys lliniaru effeithiau'r dysgu a gollwyd dros dymor yr haf a sicrhau darpariaeth deg i bob dysgwr. Wedi dweud hynny, mae effeithiau negyddol y cyfyngiadau ar ddysgwyr yn annhebygol o gael sylw llawn am beth amser ar ôl y i ysgolion a lleoliadau ddychwelyd i weithredu'n llawn ym mis Medi a gall llawer o ddysgwyr fod yn bryderus ynghylch dychwelyd i'w hysgolion/leoliadau a bydd angen cymorth arnynt.

Roedd 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' yn nhymor yr haf ar sail lai gan ystyried y cyngor gwyddonol oedd ar gael ar y pryd a'r mesurau angenrheidiol i helpu i leihau'r risg o drosglwyddo. Byddai hyn wedi golygu na fyddai rhai dysgwyr yn cael y cyfle i elwa ar gysylltiad wyneb yn wyneb â'u hathrawon. Penderfynwyd caniatáu i 100% o ddysgwyr ddychwelyd ym mis Medi gan lliniaru hyn, ond cydnabyddir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr, yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu a datblygiadol penodol.

Mae'r [fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau](#) y cyfeirir ato yn Adran 1, yn nodi'r dull o newid gweithrediadau ysgolion a lleoliadau. Mae'n glir mai dim ond pan fyddai meini prawf gwyddonol / meddygol penodol yn cael eu bodloni y byddai unrhyw gynnydd mewn gweithrediadau yn cael ei ystyried. Yn gyffredinol, bydd buddiannau'r dysgwyr a sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) wrth wraidd unrhyw benderfyniadau.

Mae cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb gyda rhywfaint o ddysgu o bell – dull dysgu cyfunol – yn debygol fod yn rhan o'r cynnig addysg hyd y gellir rhagweld. Mae hyn yn arbennig o wir mewn achosion o gyfyngiadau lleol neu gyfyngiadau mewn ysgolion penodol, neu grwpiau blwyddyn. Mae profiadau unigol yn debygol o amrywio (o leiaf i ddechrau) wrth i'r gwaith o ddychwelyd yn llawn fynd rhagddo.

### **1.1 Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?**

Mae'r dull o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau yn cael ei arwain gan egwyddor o sicrhau mynediad cyfartal ac ystyried hawliau dysgwyr. Mae'r dull yn rhoi'r cyfle tecach i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gael gafael ar gymorth wyneb yn wyneb gan weithwyr addysg proffesiynol dibynadwy. Fodd bynnag, gwyddom y bydd gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn cael anawsterau mwy greddfod wrth dychwelyd i'r ysgol yn enwedig ar ôl cyfnod hir i ffwrdd. Rydym yn archwilio'r rhain isod.

Fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i fynd i'r afael ag anghenion y rhai nad oeddent yn mynychu eu hysgol na'u lleoliad cyn gwyliau'r haf a/neu nad ydynt wedi bod yn ymwneud â'u dysgu o bell yn ystod y tymor diwethaf.

Gwyddom fod y cyfyngiadau wedi cael effaith sylweddol ar lawer o ddysgwyr, nid yn unig o ran torri ar draws eu dysgu, ond o ran lles, unigedd cymdeithasol, a threulio mwy o amser mewn amgylchedd negyddol yn y cartref.

Croesawyd y cyhoeddiad ar ganiatáu i bob dysgwr dychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, a oedd yn cydnabod, er bod cau'r ysgol yn angenrheidiol i reoli'r pandemig, fod effaith peidio â bod yn yr ysgol ar les llawer iawn o blant yn sylweddol.

Ymysg rhai o effeithiau cadarnhaol dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, mae'r canlynol:

- y cyfle i ddysgwyr ailgydio â'u dysgu a dechrau'r broses o liniaru effeithiau'r dysgu a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau. Gwyddom y bydd y rhan fwyaf o ddysgu wedi cael ei effeithio ar ryw ffurf dros y misoedd diwethaf, a disgwylir effeithiau mwy sylweddol mewn grwpiau agored i niwed neu grwpiau difreintiedig. Ceir effaith benodol hefyd ar y rhai sy'n dilyn cymwysterau ffurfiol yn 2021 – y rhai sy'n mynd i Flynyddoedd 11, 12 a 13. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £29 miliwn i [recrwtio](#), [adfer a chodi safonau](#), gan ddod â mwy o athrawon i ysgolion i ddarparu cymorth mwy manwl a phenodol i'r rhai sydd â heriau penodol i'w galluogi i gyflawni eu potensial.
- cyfle i aildechrau rhyngweithio arferol a chymdeithasol, a gollwyd yn ystod y cyfyngiadau gan arwain at deimladau o unigrwydd a materion iechyd meddwl ymhlith rhai dysgwyr, a hyn yng nghyd-destun amgylchedd negyddol yn y cartref i lawer.

- caniatáu ffocws ar les corfforol, meddyliol ac emosiynol dysgwyr. Mae'r [canllawiau dysgu](#) yn gofyn i ymarferwyr ganolbwyntio ar gefnogi lles fel sylfaen ar gyfer dysgu, a dyma'r man cychwyn i ysgolion a lleoliadau ymgysylltu â dysgwyr yn ystod tymor yr hydref
- i ysgolion a lleoliadau gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau 'diogelu' yn well gan sicrhau bod ymarferwyr yn diogelu plant (ac oedolion) sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso. Cymhwyso [Gweithdrefnau Diogelu Cymru](#) sy'n llywio arferion diogelu pawb a gyflogir yn y sector statudol, y trydydd sector (gwirfoddol) a'r sector preifat ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu, cyfiawnder a gwasanaethau eraill
- sicrhau bod [y broses ddiogelu: trosolwg](#), sy'n disgrifio'r gwahanol ffyrdd y gall ymarferwyr amddiffyn plant sydd mewn perygl rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod yn ogystal â'u cyfrifoldebau i nodi, asesu ac ymyrryd
- sicrhau [help cynnar ac atal camdriniaeth, esgeulustod and niwed](#) gan amlinellu rolau a chyfrifoldebau ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys:
  - y dasg: nodi a mynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg
  - ymarferwyr mewn cysylltiad â phlant a theuluoedd
  - mathau o ymyriadau
- dysgu yn yr awyr agored a all helpu i liniaru'r effaith negyddol ar les diwylliannol, yn enwedig o gofio ein bod yn debygol o weld cyfyngiadau ar weithgareddau diwylliannol am beth amser. Yn ogystal, dangoswyd bod dysgu 'yn yr awyr agored' yn cefnogi iechyd a lles corfforol a meddyliol. Mae tystiolaeth yn dangos bod y risg o haint yn cael ei leihau yn yr awyr agored gan fod y feirws yn dioddef yng ngolau'r haul. Mae [canllawiau dysgu](#) yn cydnabod hyn drwy bwysleisio pwysigrwydd dysgu a chwarae yn yr awyr agored.
- cyfle i ymarferwyr nodi unrhyw broblemau dysgu sy'n dod i'r amlwg gyda dysgwyr unigol, sicrhau ymyriadau cynnar ac felly ceisio lliniaru effaith negyddol colli dysgu ar gyrhaeddiad a dilyniant yn y dyfodol.

Er y cydnabyddir y bydd y rhan fwyaf o'r effeithiau ar blant a phobl ifanc sy'n deillio o ddychwelyd yn llawn i'r ysgol o fis Medi ymlaen yn gadarnhaol, mae'r arolwg dysgwyr a gynhaliwyd yn ystod y cyfyngiadau yn ein harwain i ddod i'r casgliad bod potensial ar gyfer rhai effeithiau negyddol, er enghraifft:

- llai o amser i dreulio gyda theulu agos
- dychwelyd at anawsterau blaenorol fel bwlio yn yr ysgol
- llai o amser i ganolbwyntio ar ddysgu sgiliau newydd, hobiau, diddordebau a chwarae
- potensial ar gyfer rhywfaint o bryder ymhlith dysgwyr ynglŷn â dychwelyd i'w hysgol neu leoliad ar ôl cyfnod mor hirfaith i ffwrdd.

Mae'r [canllawiau dysgu](#) yn cydnabod hyn, gan nodi'r angen i ymarferwyr ystyried sut y gall eu hymagwedd at ddysgu yn nhymor yr hydref gefnogi lles meddyliol,

emosiynol, corfforol a chymdeithasol dysgwyr; yn ogystal â'r angen i ddysgu fod â phwrpas clir mewn golwg, gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i ddysgwyr nawr ac yn y tymor hwy.

Gwyddom fod y cyfyngiadau symud wedi cael effaith anghymesur ar ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig. Mae [canllawiau atodol](#) ar gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig wedi'u cyhoeddi i helpu ysgolion a lleoliadau i gynllunio ar gyfer dysgu a dilyniant y rhai sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu. Mae'n nodi y dylai'r blaenoriaethau ar gyfer dysgu fod yn seiliedig ar yr egwyddorion bod iechyd a lles dysgwyr yn hollbwysig; ac y dylai'r cwricwlwm a chymorth cysylltiedig sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd sy'n briodol i'w hanghenion.

Bydd y pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddysgu ac addysgu yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21. Bydd angen i'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a lleoliadau esblygu'n barhaus i ddarparu dysgu yn yr ysgol ac mewn mannau eraill os bydd yr anghenion yn codi. Mae'n ddigon posibl y bydd y cydbwysedd rhwng dysgu mewn ysgolion a lleoliadau a'r amser a dreulir yn dysgu mewn mannau eraill yn newid ar adegau penodol mewn ymateb i'r pandemig. Mae'r her hon yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion addasu eu cynlluniau cwricwlwm i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau sy'n newid ac anghenion dysgwyr. Felly, mae'r [canllawiau dysgu](#) yn darparu set lefel uchel o ddisgwyliadau ar gyfer ysgolion a lleoliadau wrth ddatblygu dulliau dysgu ac yn ceisio cau'r bwlch rhwng ein dysgwyr tra'n codi disgwyliadau i bawb. Wrth i ysgolion a lleoliadau ddatblygu dulliau o ddarparu dysgu yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, gallant ddefnyddio [canllawiau dysgu cyfunol](#).

## 1.2 Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar grwpiau gwahanol o blant?

*Dylid darllen hwn wrth ochr yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad B) sy'n asesu'r effaith ar ddysgwyr â nodweddion gwarchoddedig.*

Gan ystyried y sefyllfa well dros yr haf, mae cydbwysedd y risg bellach yn llethol o blaid caniatáu i bob dysgwr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi. Bydd hyn yn dod â manteision cadarnhaol mewn nifer o feysydd, gan gynnwys lliniaru effeithiau'r dysgu a gollwyd dros dymor yr haf.

Fodd bynnag, bydd pob sefyllfa'n wahanol; mae'r [canllawiau gweithredol](#) i ysgolion yn cydnabod y bydd cyd-destun ysgol yn pennu'r cyfuniad o fesurau a all helpu i leihau'r risg o drosglwyddo ym mhob lleoliad unigol. Bydd angen i arweinwyr ysgolion wneud penderfyniadau ar lefel ysgol ynglŷn â sut i gydbwyso lleihau unrhyw risgiau o COVID-19 gyda darparu profiad addysgol llawn i blant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys rhoi sylw dyledus i hawliau plant a'r risgiau iddynt os na fyddant yn cael eu bodloni; er enghraifft, eu hawliau i oroesi a datblygu, y safon iechyd uchaf sydd i'w chyrraedd, a'r hawl i addysg.

Mae'r tarfu ar addysg o ganlyniad i COVID-19 wedi amharu'n arbennig ar fywydau ac arferion y rhai sy'n agored i niwed neu dan anfantais. Mae'r [canllawiau atodol](#) yn nodi'n glir y dylid cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd o dan anfantais i ddychwelyd i'w hysgol neu leoliad eu hunain cyn gynted â phosibl. Mae dychwelyd yn llawn i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi yn rhoi mynediad i ddysgwyr at athrawon y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt, ac sy'n fwy

cyfarwydd â'r heriau unigol y gallent fod wedi'u hwynebu yn ystod y cyfyngiadau symud, ac mae hyn yn hanfodol er mwyn helpu i nodi anghenion penodol.

At ddibenion y canllawiau, mabwysiadwyd diffiniad eang o ddysgwyr agored i niwed a difreintiedig. Mae'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ddysgwyr sydd mewn un neu fwy o'r grwpiau canlynol:

- dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig (AAA)
- dysgwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL/WAL)
- plant sydd â phrofiad o ofal, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal
- dysgwyr sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (EOTAS)
- plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches
- Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM)
- gofalwyr ifanc
- plant sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod.

Yn ogystal â'r grwpiau a restrir uchod, efallai y bydd grwpiau o ddysgwyr na fyddant wedi cael cyswllt â'u hysgol na'u lleoliad yn ystod y cyfyngiadau symud a bydd ganddynt bryderon ynghylch dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Mae'r canllawiau'n nodi y bydd angen sicrwydd a/neu gymorth ar y dysgwyr hyn wrth iddynt dychwelyd i'w hysgol neu leoliad, yn enwedig er mwyn sicrhau nad yw'r dysgwyr hyn yn ymddieithrio ymhellach â dysgu ac yn dod yn bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae'r fframwaith ymgysylltu a datblygu ieuencid ar waith i leihau nifer y bobl ifanc a all ddod yn NEET.

Mae deall yr anghenion a'r rhwystrau penodol a wynebir gan ddysgwyr unigol a cheisio mynd i'r afael â'r mesurau amddiffyn sy'n cael eu gweithredu a'u hegluro i roi sicrwydd iddynt yn hollbwysig. Dylai ysgolion a lleoliadau roi sicrwydd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr o'r mesurau y maent yn eu cymryd i leihau risg a chefnogi dysgwyr i drosglwyddo'n ôl i'w hysgol/leoliad.

## **Dysgwyr ag AAA**

Gall rhai dysgwyr fod yn bryderus ynghylch dychwelyd i'w hysgol/leoliad o ganlyniad i'r tarfu ar eu presenoldeb, neu oherwydd profiadau negyddol, e.e. os cawsant eu bwlio yn yr ysgol a'u bod wedi cael profiadau mwy cadarnhaol yn ystod y cyfyngiadau symud. Yn ogystal, mae'n bosibl bod COVID-19 wedi cynyddu neu waethygu pryder sy'n bodoli eisoes a materion iechyd meddwl eraill; neu gall ddatblygu pryder neu faterion iechyd meddwl eraill o ganlyniad i effeithiau COVID-19.

Gwyddom fod llawer o rieni wedi cael anawsterau wrth ddiwallu anghenion dysgu eu plentyn yn ystod y cyfnod pan oedd ysgolion ar gau, sy'n golygu y gallai'r cynnydd a wnaed yn flaenorol fod wedi'i golli, gan gynyddu'r bwloch anfantais i blant AAA. Mae dychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi yn rhoi cyfle i liniaru'r effeithiau hyn i bob dysgwr a sicrhau nad yw'r bwloch cyrhaeddiad yn ehangu ymhellach.

Wedi dweud hynny, gallai llawer o ddysgwyr fod yn bryderus ynghylch y ffaith bod eu profiad dysgu yn wahanol, yn enwedig mewn amgylchedd newydd ac anghyfarwydd; a gall dysgwyr hŷn hefyd fod â phryderon am ragolygon addysgol, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol ar ôl cwblhau eu dysgu. Yn unol â'r canllawiau, dylid rhoi cymorth ychwanegol ar waith i helpu dysgwyr i oresgyn hyn. Yn ogystal, dylid ystyried a fyddai angen gwybodaeth bwrpasol a/neu ffyrdd o ddarparu'r wybodaeth honno, yn enwedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid ag AAA.

Er eu bod yn cydnabod, oherwydd COVID-19, efallai na fydd systemau cymorth yn gweithredu fel y byddent fel arfer, mae canllawiau'n dweud yn glir y dylai'r awdurdod lleol a/neu'r ysgol neu'r lleoliad weithio gyda rhieni/gofalwyr, dysgwyr a, lle y bo'n briodol, asiantaethau eraill, i archwilio a chytuno ar unrhyw drefniadau wrth gefn y mae angen eu rhoi ar waith i ddiwygio'r ddarpariaeth a nodir mewn datganiad o ganlyniad i COVID-19, pe bai angen cyfyngiadau symud lleol neu genedlaethol pellach.

### **Dysgwyr o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a'r rhai sydd â'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL/WAL)**

Gwyddom fod tystiolaeth gynyddol bod haint COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar bobl o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Fel rhan o'r gwaith o gynllunio ar gyfer dychwelyd yn llawn yn nhymor yr hydref, mae canllawiau gweithredol yn nodi'n glir ei bod yn ofyniad cyfreithiol i ysgolion ailedrych ar eu hasesiadau risg a'u diweddarau drwy adeiladu ar y dysgu hyd yma a'r arferion y maent eisoes wedi'u datblygu. Bydd hyn yn eu galluogi, i ystyried y risgiau a'r mesurau rheoli ychwanegol i'w rhoi ar waith i ddychwelyd i'r eithaf yn nhymor yr hydref. Mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr neu eu rhieni/gofalwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) yn bryderus ynghylch eu canfyddiad o'r risg o ddal COVID-19, a chanlyniadau hynny. Mae deall yr anghenion a'r rhwystrau penodol a wynebwr gan ddysgwyr unigol a cheisio mynd i'r afael â nhw gan egluro'r mesurau diogelu sy'n cael eu gweithredu i roi sicrwydd iddynt yn hollbwysig.

Fel y nodwyd yn y [canllawiau](#), dylai ysgolion a lleoliadau roi sicrwydd i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr o'r mesurau y maent yn eu cymryd i leihau risg. Gall hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y trefniadau iechyd a diogelwch sydd ar waith.

Os oes gan ddysgwyr y Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY/WAL) efallai nad ydynt wedi defnyddio eu sgiliau iaith yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud ac efallai eu bod wedi colli hyder. Gallai hyn arwain at bryder ymhlith rhai dysgwyr ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol ac efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar y dysgwyr hyn i ddysgu ac i loywi eu sgiliau iaith pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol.

Mae gwasanaethau cyflawniad lleiafrifoedd ethnig awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a lleoliadau, dysgwyr a'u teuluoedd i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd a rhannu arfer dda ar draws ardaloedd eu hawdurdod lleol. Mewn rhai awdurdodau lleol, mae staff yn adrodd bod galwadau tair ffordd rhwng teuluoedd, ysgolion a lleoliadau a'r gwasanaethau EAL/WAL wedi bod yn fuddiol. Maent wedi helpu i sicrhau dealltwriaeth rhieni o'r ffordd orau iddynt gefnogi dysgu eu plant a chael mynediad at adnoddau. Yn ogystal, mae [canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#) yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi sicrwydd i

ddysgwyr a'u teuluoedd y byddant yn cael yr holl gymorth a chefnogaeth sydd eu hangen arnynt ar ôl dychwelyd i'r ysgol.

Bydd rhagor o wybodaeth am sut mae'r cyfyngiadau symud wedi effeithio ar ddatblygiad y Gymraeg ar gael wrth i ysgolion a lleoliadau allu asesu cynnydd dysgwyr yn well ac unrhyw faterion hygyrchedd yn dilyn darparu'r sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' 29 Mehefin; ac wrth i ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau o 1 Medi.

Felly, bydd angen monitro'r materion sy'n ymwneud â dysgu'r Gymraeg, a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ofalus, gydag ymchwil barhaus, tystiolaeth a champau gweithredu ar gyfer y dyfodol. O ystyried yr effeithiau a archwiliwyd uchod, fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr gyda'r Gymraeg o dymor yr hydref.

Dylid hefyd ystyried a fyddai angen gwybodaeth bwrpasol a/neu ffyrdd o ddarparu'r wybodaeth honno ar gyfer newydd-ddyfodiaid sy'n dod o gymunedau Sipsiwn, Roma neu Deithwyr

Mae [Recrwtio, Adfer a Chodi Safonau: Rhaglen Dysgu Carlam](#) wedi nodi dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fel un o'r carfannau allweddol yr effeithir arnynt. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynnydd o fewn y fethodoleg ariannu ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg i gyfrif am ddysgwyr y bydd angen cymorth ychwanegol arnynt ym mis Medi i ailsefydlu eu sgiliau iaith ac i ddarparu capasiti ychwanegol yn y Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod dysgwyr yn gallu ymgolli yn yr iaith.

### **Addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS)**

Gall rhai dysgwyr sy'n ymwneud â darpariaeth EOTAS fod yn bryderus ynghylch dychwelyd i'w lleoliad ac efallai eu bod wedi teimlo'n hapusach gartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Gallai hyn fod yn arbennig o wir am ddysgwyr a gafodd eu gwahardd ychydig cyn yr argyfwng COVID-19.

Mae [canllawiau](#)'n nodi y bydd angen i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr i flaenoriaethu sicrhau bod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i bob dysgwr EOTAS ailddechrau eu haddysg a chael eu cefnogi wrth drosglwyddo'n ôl i'w lleoliad, ac nad ydynt yn ymddieithrio oddi wrth addysg.

Dylai awdurdodau lleol flaenoriaethu dysgwyr nad oedd ganddynt lleoliad addysg yn ystod y cyfyngiadau symud oherwydd, er enghraifft, eu gwahardd cyn y cyfyngiadau symud. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y dysgwyr hyn yn cael lleoliad yn ystod wythnosau cyntaf tymor yr hydref. Dylai'r dysgwyr eu hunain fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, gan ystyried eu barn wrth wneud penderfyniadau lleoli.

Mae potensial ar gyfer cynnydd mewn ymddygiad heriol ymhlith dysgwyr EOTAS oherwydd profiadau yn ystod COVID-19. Mae'n bosibl hefyd y bydd angen cymorth pellach ar rai dysgwyr a oedd wedi bod yn gwneud cynnydd gydag ymddygiad cyn COVID-19 ar ôl dychwelyd i'w lleoliad oherwydd nad oedd ganddynt y drefn strwythuredig a'r cymorth a ddarperir gan eu lleoliad yn ystod y cyfyngiadau symud. Dylai lleoliadau ystyried diwygio eu polisi ymddygiad er mwyn ystyried effaith

COVID-19 ar les ac ymddygiad dysgwyr. Dylid cynnal asesiadau risg hefyd, fel y bo'n briodol.

Efallai y bydd angen i leoliadau roi strategaethau rhagweithiol ar waith i gefnogi dysgwyr, ac addasu ymatebion i ymddygiad heriol er mwyn ystyried y tarfu a welwyd a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar ddysgwyr i drosglwyddo'n ôl i'w lleoliad. Dylai lleoliadau hefyd weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar gymorth iechedd meddwl a chwmsela, fel y bo'n briodol. Efallai y bydd yr astudiaethau achos hyn yn ddefnyddiol i leoliadau wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

## **Dysgwyr Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae tystiolaeth anecdotaidd gan ddarparwyr gwasanaethau Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol y bu lefel uwch o ymddieithrio o'r dysgwyr hyn yn ystod y cyfyngiadau symud a bod dychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi yn rhoi cyfle i ddysgwyr ailgydio yn eu dysgu yn amgylchedd ffurfiol yr ysgol; .

Fel y nodwyd yn y [Canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#), bydd angen i ysgolion a lleoliadau ailgydio yn y teuluoedd hyn er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i ddychwelyd i'w hysgol neu leoliad ym mis Medi. Mae'r [canllawiau dysgu](#) i ysgolion yn amlinellu pwysigrwydd sgorsiau parhaus gyda dysgwyr am sut maent yn teimlo ac annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Yn ogystal â hyn, bydd dysgu yn ystod tymor yr hydref yn canolbwyntio'n gryf ar iechedd a lles.

## **Plant sy'n byw mewn tloidi**

Rydym wedi gweld rhywfaint o gynnydd pwysig dros y blynyddoedd diwethaf, gyda dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig yn cyflawni deilliannau addysgol gwell. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr hyn yn cyflawni eu potensial llawn o hyd. Mae perygl i'r achosion o COVID-19 ddadwneud y cynnydd a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf. Bydd y penderfyniad i ganiatáu i bob dysgwr ddychwelyd i'w hysgolion/leoliadau yn lliniaru yn erbyn y golled ddysgu ychwanegol hon, ond efallai y bydd angen amrywiol gymorth ar y dysgwyr hyn o fis Medi i brosesu, ac adfer o beidio bod yn bresennol yn yr ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud. Gall hyn gynnwys cymorth ar gyfer eu hiechedd meddwl a'u lles, yn ogystal â chymorth ychwanegol gyda'u dysgu.

Yn unol â'n disgwyliadau, bu cynnydd yn y niferoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ganlyniad i COVID-19. Ar 20 Mai, roedd gwaith monitro Data Cymru wedi cadarnhau bod tua 5,000 o ddysgwyr wedi dod yn gymwys ers dechrau'r cyfyngiadau symud, sy'n golygu bod ychydig dros 91,700 o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim ar 29 Mehefin 2020.

Rhaglen allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi dysgwyr difreintiedig yw'r Grant Datblygu Disgyblion sydd ar ei uchaf erioed yn £100 miliwn ar gyfer 2020-21. Eleni, mae ysgolion a lleoliadau wedi cael mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion fel y gellir ei dargedu i fynd i'r afael ag angen lleol yng nghyd-destun COVID-19. Gallai blaenoriaethau gynnwys, er enghraifft, sicrhau bod



ymarferwyr yn cael sesiynau gloywi dysgu proffesiynol ar ymarfer sy'n seiliedig ar drawma a/neu ymwybyddiaeth o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, neu ffocws ychwanegol ar asesu cynnydd dysgwyr i helpu dysgwyr i gam nesaf eu dysgu.

Yn ogystal â'r Grant Datblygu Disgyblion, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r defnydd o Becyn Cymorth Addysgu a Dysgu'r Sefydliad Gwaddol Addysg i gefnogi cynllunio. Mae'r Sefydliad Gwaddol Addysg wedi cynhyrchu amrywiaeth o adnoddau i gefnogi ymarferwyr i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad, sy'n benodol berthnasol i gyd-destun COVID-19 a dychwelyd i ysgolion/lleoliadau ym mis Medi.

Mae [canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#) yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod dysgwyr o deuluoedd incwm isel yn mynd ati i ailgydio yn eu haddysg pan fyddant yn dychwelyd i'w hysgol neu leoliad. Mae'n nodi y dylid ystyried anghenion dysgwyr unigol ar ddechrau tymor yr hydref a dylid rhoi rhaglen unigol o gymorth ac ymyrraeth ar waith, gan ystyried sut y gellir addasu rhaglenni rhianta neu ddysgu teuluol presennol i helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi addysg eu plentyn.

Mae'r [canllawiau dysgu](#) yn nodi y bydd staff sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion a lleoliadau sydd â chyfrifoldeb dros bresenoldeb ac ymgysylltu â rhieni/gofalwyr yn allweddol i nodi dysgwyr a fyddai'n elwa o gymorth wrth ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi ac i ymgysylltu â gofalwyr a theuluoedd a'u cefnogi. Bydd deall achos eu pryder yn hanfodol wrth nodi sut y gellir eu cefnogi i ddychwelyd.

## **Gofalwyr ifanc**

Efallai y bydd gofalwyr ifanc yn pryderu am ddychwelyd i'r ysgol. Efallai y byddan nhw'n poeni am sut y bydd y person maen nhw'n gofalu amdano yn cael ei gefnogi tra byddant yn yr ysgol. Efallai y byddant hefyd yn pryderu am drosglwyddo'r feirws a'r risgiau o fynd â'r haint adref i rieni/gofalwyr, brodyr a chwiorydd neu aelodau eraill o'r teulu sy'n sâl neu sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n eu gwneud yn agored i salwch neu heintiau.

Efallai eu bod wedi gweld cynnydd mewn cyfrifoldebau gofalu yn ystod y pandemig; naill ai yn nifer yr oriau neu'r math o dasgau y maent wedi bod yn eu cyflawni, neu nifer y bobl y maent yn gofalu amdanynt. Gall hyn olygu nad yw gofalwr ifanc wedi gallu cymryd rhan lawn mewn dysgu gartref a'i fod ar ei hól hi yn ei astudiaethau, a allai achosi pryder ynghylch dychwelyd i'r ysgol. Mae dychwelyd i ysgolion/lleoliadau ym mis Medi yn rhoi cyfle i'r dysgwyr hyn ailgydio yn eu dysgu, dal i fyny ar eu hastudiaethau ac ailsefydlu cyfathrebu â ffrindiau neu rwydweithiau cymorth ehangach.

Gwyddom fod llawer o blant a phobl ifanc nad ydynt yn sylweddoli eu bod mewn rôl ofalu, neu nad ydynt yn dweud wrth staff yr ysgol eu bod yn ofalwr ifanc. Roedd y canllawiau'n pwysleisio rôl ysgolion a lleoliadau i helpu gofalwyr ifanc i ddeall eu hawliau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i gynhyrchu canllawiau a chynlluniau gwersi, a gaiff eu lansio ym mis Medi. Hefyd, yn 2019, cyhoeddodd Estyn adolygiad thematig [Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn](#)

ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Efallai y bydd hyn yn ddefnyddiol i ysgolion a lleoliadau wrth gynllunio cymorth i ofalwyr ifanc yn y flwyddyn academaidd newydd.

Fel yr amlinellir yn y [canllawiau](#), dylid annog gofalwyr ifanc a'u teuluoedd i drafod pryderon ynghylch dychwelyd i addysg gyda'u hysgol neu leoliad ac unrhyw asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r teulu. Gallai dull amlasiantaethol fod o fudd wrth ddod o hyd i ffyrdd o gefnogi dychwelyd i'r ysgol.

### **Plant sydd mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod**

Bydd dysgwyr wedi dod ar draws gwahanol brofiadau ac amgylcheddau cartref yn ystod y cyfyngiadau symud a gallai hyn effeithio ar barodrwydd/gallu dysgwyr i ddychwelyd i'w hysgol/lleoliad ym mis Medi. Mae'r penderfyniad i ganiatáu i bob dysgwr ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi yn rhoi cyfle i ymarferwyr ailymgysylltu â theuluoedd a phlant a sicrhau bod ymyrraeth gynnar yn cael ei chynnig i blant y nodir eu bod yn agored i gamdriniaeth ac esgeulustod posibl a'u teuluoedd. Mae hyn yn sicrhau'r canlynol:

- diogelu plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio;
- problemau'n cael eu huwchgyfeirio;
- lleihau'r angen am ymholiadau ac ymyriadau diogelu;
- darparu manteision hirdymor i iechyd a lles y plentyn.

Mae'r [canllawiau ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais](#) yn atgoffa ymarferwyr o'u cyfrifoldebau i ddiogelu dysgwyr a'u cynorthwyo i ymateb i bryderon am ddysgwyr sydd mewn perygl, yn unol â [gweithdrefnau diogelu Cymru](#).

Yn y camau cynnar, dylai ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau plant barhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael y cymorth sydd ei angen. Bydd gan awdurdodau lleol eisoes amrywiaeth o arferion gwaith yn eu lle i sicrhau y gall partneriaid diogelu gydweithio i gadw dysgwyr yn ddiogel. Mae cyfle yn awr i'r arferion gwaith hyn gael eu cydgrynhoi ymhellach.

### **1.3 Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?**

Yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn [fframwaith penderfyniadau'r](#) Gweinidog Addysg, rydym wedi gweithio'n agos gydag amrywiaeth eang o bartneriaid er mwyn helpu i lunio a llywio'r polisiâu a'r cynigion a nodir yn Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn. Mae'r rhain yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, grŵp yr haen ganol a phenaethiaid, yr undebau llafur, y Prif Gynghorydd Gwyddonol, y Prif Swyddog Meddygol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Gell Cyngor Technegol. Rydym hefyd wedi gweithio gyda rhieni, plant a phobl ifanc. O ganlyniad **defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth i lywio'r asesiad hwn, gan gynnwys:**

- cyngor gwyddonol a chyngor iechyd gan Ystafell Friffio Swyddfa'r Cabinet, y Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau, y Gell Cyngor Technegol, yn ogystal â gwybodaeth a chyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru
- gwybodaeth o'r Aseiad Effaith Integredig, a thystiolaeth gysylltiedig yn ymwneud ag ef, [ynghylch ymateb cychwynnol y sector addysg](#)
- data a gasglwyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid allweddol
- ymchwil flaenorol a ddefnyddiwyd i ddod i gasgliadau
- trafodaethau ag ymarferwyr a chynrychiolwyr eraill, yn darparu adborth o safbwynt gweithwyr proffesiynol a safbwynt plant
- adborth ar faterion allweddol a godir gyda'r Comisiynydd Plant, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Chomisiynydd y Gymraeg
- adroddiadau gwrando cymdeithasol dyddiol mewnol yn Llywodraeth Cymru sydd wedi tynnu sylw at y pynciau allweddol sy'n trendio ar y cyfryngau cymdeithasol a chrynodebau o'r materion allweddol sy'n cael eu codi drwy ohebiaeth, y Ganolfan Pwynt Cyswllt Cyntaf a'r Uned Gwynion
- olrhain a dadansoddi profiadau a champau gweithredu awdurdodaethau addysg yn rhyngwladol y mae rhai ohonynt wedi bod ar gam pellach yn yr ymateb i'r pandemig neu wedi gwneud dewisiadau gwahanol o ran polisïau
- adborth gan randdeiliaid allweddol a chyrrff cynrychioliadol
- amrywiaeth o adroddiadau ymchwil sydd ar gael yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a gwybodaeth am effeithiau COVID-19 a chlefydau pandemig tebyg, gan gynnwys drwy Sefydliad Iechyd y Byd ac UNESCO.

Er nad yw opsiynau ar gyfer cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau wedi cael eu profi'n uniongyrchol gyda dysgwyr oherwydd natur a chyflymder y broses gwneud penderfyniadau, mae gwybodaeth wedi cael ei chasglu gan blant a phobl ifanc drwy amrywiaeth o sianeli a, lle y bo'n bosibl, mae hyn wedi bwydo i mewn i waith asesu risg a phrosesau gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn cynnwys:

- adroddiadau gwrando cymdeithasol dyddiol
- y Gweinidog Addysg yn cynnal sesiynau Holi ac Ateb ar y cyfryngau cymdeithasol gyda phobl ifanc
- y Gweinidog Addysg yn mynychu'r Senedd Ieuenctid
- yr ymateb i negeseuon fideo ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr neu eu rhieni
- adborth o'r arolwg 'Coronafeirws a fi' i blant a phobl ifanc
- monitro pynciau'n ddyddiol sy'n codi mewn gohebiaeth, ymholiadau i'r ganolfan Pwynt Cyswllt Cyntaf neu'r Uned Gwynion –mae'r rhain hefyd wedi cael eu defnyddio i fireinio a diweddarau'r adran Cwestiynau Cyffredin ar wefan Coronafeirws Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â'r uchod, mae'n werth nodi'r canlynol:

- Ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud roedd gostyngiad amlwg yn nifer yr adroddiadau diogelu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Mae'r rhain yn cynyddu'n raddol i'n lefelau disgwylidig erbyn hyn, ond nid ydynt wedi adfer yn gyfan gwbl ym mhob awdurdod lleol.

- Mae ymarferwyr sy'n gweithio ar draws asiantaethau yn y sector statudol a'r trydydd sector wedi gorfod addasu yn gyflym i ffyrdd newydd o weithio, gan barhau i sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cymorth. I rai mae hyn wedi cynnwys dod o hyd i ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau drwy lwyfannau rhithwir, i rai eraill mae cyswllt wyneb yn wyneb wedi parhau yn unol â [ch yngor lechyd Cyhoeddus Cymru](#) ar gadw pellter cymdeithasol a defnyddio cyfarpar diogelu personol.
- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol i blant wedi cynnal cyswllt wyneb yn wyneb i blant y nodwyd eu bod yn wynebu risg drwy gydol y pandemig. Fodd bynnag, bydd y mwyafrif o'r plant nad oeddent eisoes wedi'u nodi fel rhai sy'n wynebu risg ond wedi cael cyswllt rhithwir drwy fideo, ffôn neu ar-lein o'u cartrefi gydag aelodau o'u teulu yn bresennol. Mae'n debygol y bydd hyn wedi effeithio ar gyfleoedd i ymarferwyr nodi achosion o gam-drin ac i blant ddatgelu niwed. Mae gwasanaethau wedi gwneud popeth posibl mewn amgylchiadau anodd iawn ond, yn anffodus, gwyddom y bydd rhai plant wedi cael eu niweidio heb yn wybod inni. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, mae'n debygol y bydd cyswllt rhwng plant a gwasanaethau cyffredinol a gwasanaethau ataliol yn nodi angen sydd heb ei ddiwallu.
- Mae gwaith i liniaru hyn wedi dechrau drwy gefnogi ymarferwyr i nodi achosion o gam-drin, niwed ac esgeulustod a rhoi gwybod amdanynt; annog y cyhoedd i roi gwybod am bryderon a datblygu gwybodaeth i deuluoedd ac i blant a phobl ifanc am geisio cymorth a chefnogaeth. Cefnogir y gwaith hwn gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol, a chaiff ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allanol o bob rhan o'r sector statudol a'r trydydd sector.
- Mae'r wybodaeth hon yn tynnu sylw at y pryderon gwirioneddol ynghylch peidio â rhoi gwybod am achosion a'r niwed cynyddol a wynebir gan rai a all arwain at gynnydd sylweddol mewn anghenion cymorth yn y dyfodol wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol.
- Mae canlyniadau addysgol yn wynebu risg ddifrifol gydag effaith uniongyrchol ar y bwlch cyrhaeddiad, yn enwedig i ddysgwyr sy'n agored i niwed a dan anfantais. Mae [rhai ysgolion a lleoliadau](#) yn cael trafferth addasu eu patrymau addysgu er mwyn ennyn diddordeb dysgwyr wrth ddysgu o bell, [yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig](#). Mae athrawon yn nodi eu bod yn disgwyl i'r pandemig gael effaith sylweddol ar astudiaethau dysgwyr, gan awgrymu y dylid tybio na fydd rhai dysgwyr wedi ymgymryd ag unrhyw weithgareddau dysgu yn ystod y cyfnod hwn.
- Ni wnaeth yr arolwg '[Coronafeirws a fi](#)' adlewyrchu darlun cwbl negyddol o'r effaith ar blant a phobl ifanc o ganlyniad i addasu diben ysgolion er mwyn ymateb i COVID-19. Er mai dim ond sampl o'r ymatebion yw hwn, o'r rhai yr ymgysylltwyd â nhw drwy'r arolwg, nododd 51% eu bod yn teimlo'n hyderus neu'n hyderus iawn, roedd diffyg hyder gan 25%, a nododd 10% nad oeddent yn teimlo'n hyderus o gwbl. Dewisodd 24% yr opsiwn niwtral.

## 1.4 Sut rydych wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych wedi gwneud hynny, esboniwch pam.

Gan weithio gyda Chomisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru, gyda chefnogaeth y Senedd Ieuenctid, lansiodd Llywodraeth Cymru arolwg ar-lein yn nhymor yr haf. Roedd yr arolwg yn gyfle i blant a phobl ifanc rannu effaith yr ymateb cychwynnol i COVID-19 ar eu lles a'u dysgu, ymhlith pynciau eraill. Cafodd yr arolwg dros 23,700 o ymatebion gan blant a phobl ifanc. Mae'r wybodaeth hon wedi ein galluogi i glywed eu barn a'u profiadau wrth ystyried pa gamau nesaf i'w cymryd.

Er bod y gwaith o ddatblygu'r fframwaith penderfyniadau ac adolygu dulliau posibl wedi datblygu dros gyfnod o ddeufis, mae natur ymateb i argyfwng iechyd sy'n datblygu yn golygu bod yn rhaid gwneud penderfyniadau mewn amserlenni byr iawn pan fydd y cyngor gwyddonol ac iechyd ar gael. Fodd bynnag, fel y crynhowyd uchod, mae'r Gweinidog Addysg yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau sy'n ceisio ystyried safbwyntiau plant a phobl ifanc ac ymateb iddynt, gan gynnwys gwaith ymgysylltu parhaus drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r Senedd Ieuenctid. Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliad hefyd yn parhau i gynnwys y rheini sy'n gallu cynrychioli barn plant a phobl ifanc, gan gynnwys rhieni, ymarferwyr a Chomisiynydd Plant Cymru.

## 1.5 Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn [craffu ar ymateb Llywodraeth Cymru](#) ac mae wedi nodi materion sy'n dod i'r amlwg ynghylch yr effaith ar blant sy'n agored i niwed ac effaith anghymesur y cyfyngiadau symud. Mae dystiolaeth o'r canfyddiadau hyn yn helpu i gyfrannu at wybodaeth sy'n cael ei hystyried wrth fwrw ymlaen â chynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.

Mae'r [canllawiau gweithredol](#) yn galw ar ysgolion a lleoliadau i gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd roi gwybod i'w hysgol os na fydd eu plentyn yn gallu ei mynychu, er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddeall unrhyw rwystrau a allai atal dysgwyr rhag dychwelyd i'r ysgol, cynllunio ar eu cyfer a nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen. Rydym yn cytuno ar ofynion casglu data ehangach, gan gymryd gofal i beidio â rhoi gormod o faich ar ysgolion a lleoliadau, ac mae trefniadau adrodd yn cael eu rhoi ar waith gyda chymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cychwyn ac yn defnyddio amrywiaeth gynyddol o ymchwil ac arolygon i fonitro effeithiau ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys pwyslais penodol ar oblygiadau iechyd a llesiant, yn ogystal â materion ynghylch capasiti ysgolion a lleoliadau.

Rydym wedi sefydlu adnodd i ddod â gwaith 'cydraddoldebau ac asesu ansawdd' ynghyd fel sylfaen dystiolaeth barhaus, yn ogystal â phrosesau rheolaidd i ddadansoddi dulliau rhyngwladol, a ffynonellau gwybodaeth y mae awdurdodaethau addysg eraill yn eu defnyddio'n rhyngwladol. Mae ffynonellau'r adolygiadau hyn yn cynnwys 'diptels' y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, rhwydwaith tramor Llywodraeth

Cymru, crynodebau rhyngwladol Adran Addysg Llywodraeth y DU, a'n hadolygiad desg ein hunain.

Rydym yn parhau i weithio gyda chydweithwyr yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Data Cymru i fonitro nifer y plant sy'n manteisio ar brydau ysgol am ddim. Yn ogystal, rydym wedi lansio ymgyrch ar y cyd yn y cyfryngau gyda CLILC er mwyn codi ymwybyddiaeth o ddarpariaeth prydau ysgol am ddim sydd ar gael. Yn benodol, mae'r ymgyrch yn annog rhieni i gysylltu â'u hawdurdod lleol er mwyn canfod a ydynt yn gymwys i gael darpariaeth prydau ysgol am ddim.

## 2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Isod ceir tabl o erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant (CCUHP) yr ystyrir eu bod fwyaf perthnasol i'r polisiau a nodir uchod, ac yn Adran 1 yr Aseiad Effaith Integredig hwn.

Rhif yr Erthygl	Disgrifiad	Cysylltiadau â phenderfyniadau
2	Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob plentyn heb wahaniaethu, ni waeth beth fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, ni waeth beth mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud, ni waeth beth fo'i gefndir teuluol.	<p>Mae dychwelyd i ysgolion/lleoliadau ym mis Medi yn dilyn dull sy'n seiliedig ar degwch wrth ddarparu ar gyfer y rhan fwyaf o ddysgwyr (waeth beth fo'u hoedran neu gefndir).</p> <p>Nid yw dull sy'n seiliedig ar degwch ynddo'i hun yn gwarantu cyfle cyfartal na darpariaeth gyfartal i bob dysgwr, yn enwedig y rhai ag anghenion penodol. Cydnabyddir na fydd rhai dysgwyr, oherwydd eu hamgylchiadau unigol, yn gallu dychwelyd i'w hysgol na'u lleoliad. Ar gyfer y dysgwyr AAA, agored i niwed, o dan anfantais neu sydd angen cymorth arbenigol, mae'n debygol y bydd angen trefniadau ychwanegol a/neu amgen fel EOTAS. Gwyddom y bydd y ddarpariaeth yn edrych yn wahanol iawn i rai dysgwyr, er mwyn sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu.</p>
3	Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n effeithio ar blant.	<p>Gellir gweld yr erthygl hon yn yr egwyddorion a nodir yn y fframwaith penderfyniadau ar gyfer y sector addysg, sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff.</li> <li>• Parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.</li> <li>• Ennyn hyder rhieni a gofalwyr, staff a dysgwyr – ar sail tystiolaeth a gwybodaeth – fel y gallant flaengynllunio.</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y gallu i flaenoriaethu dysgwyr ar adegau allweddol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig.</li> <li>• Cysondeb â fframwaith penderfynu Llywodraeth Cymru, sicrhau bod canllawiau ar waith i gefnogi mesurau megis cadw pellter, rheoli presenoldeb a chamau ataliol ehangach.</li> </ul> <p>Er nad oes cyfeiriad penodol at CCUHP yn nogfen gyhoeddedig y fframwaith penderfyniadau, mae dylanwad hawliau plant yn ymhyg yn y dull a ddefnyddir. Mae rhoi llesiant y dysgwr wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch ymateb y sector addysg i COVID-19 yn rhan ganolog o hynny. Ynghyd â datblygu trefniadau sy'n ceisio dechrau proses o liniaru effeithiau negyddol y 'cyfyngiadau symud' ar blant a phobl ifanc, gan gydnabod anghenion penodol grwpiau penodol o ddysgwyr.</p>
4	<p>(rhoi'r Confensiwn ar waith)</p> <p>Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau y gall pob plentyn fwynhau ei hawliau drwy greu systemau a phasio deddfau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant.</p>	<p>Mae'r Gweinidog Addysg wedi dweud yn gyson mai dim ond pan fo'r cyd-destun iechyd yn caniatáu hynny y gellid cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.</p> <p>Fel y nodwyd yn y <a href="#">canllawiau</a>, mae deall yr anghenion a'r rhwystrau penodol a wynebir gan ddysgwyr unigol a cheisio mynd i'r afael â nhw gan egluro'r mesurau diogelu sy'n cael eu gweithredu a rhoi sicrwydd iddynt yn hollbwysig.</p> <p>Er gwaethaf y dull tecach a fabwysiadwyd, fel yr archwiliwyd yn gynharach, mae angen mesurau penodol i ddiwallu anghenion rhai dysgwyr. Darparwyd <a href="#">canllawiau</a> i ysgolion a lleoliadau ynglŷn â hyn. Mae <a href="#">canllawiau penodol ar gyfer cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr difreintiedig</a> hefyd ar gael.</p>
6	<p>Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial.</p>	<p>Mae'r egwyddor allweddol o roi diogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yn ymdrin â'r hawliau hyn yn uniongyrchol. Mae'n golygu mwy nag aros yn ddiogel ac yn iach; mae'n golygu defnyddio dull ystyriol a chyson wrth ddechrau ymdrin â'r effeithiau negyddol a brofwyd ar ddysgu a datblygu yn ystod y 'cyfyngiadau symud'.</p> <p>Mae'r canllawiau gweithredol a'r canllawiau dysgu sy'n cefnogi'r syniad o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill yn cwmpasu dull cynhwysfawr a diogel er mwyn sicrhau iechyd a llesiant dysgwyr ac ymarferwyr pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyngor penodol ar gapasiti diogel, cadw pellter cymdeithasol a mesurau hylendid, a chyfran y dysgwyr sy'n mynychu'r ysgol bob dydd.</p>

		<p>Wrth i fwy o ddysgwyr ddychwelyd i amgylchedd ffisegol yr ysgol, bydd ymarferwyr yn darparu cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell – dull cyfunol. Wrth ddatblygu hyn, bydd ymarferwyr yn ystyried anghenion eu holl ddysgwyr a'r ffordd orau o ymdrin â nhw, a byddant yn ystyried dibenion dysgu ac yn pwysu a mesur eu blaenoriaethau; gan ddefnyddio amrywiaeth eang o ganllawiau cwricwlwm mewn modd hyblyg i'w cefnogi yn y gwaith hwn.</p>
12	<p>Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau mewn perthynas â phob mater sy'n effeithio arno, ac i bobl ystyried eu safbwyntiau o ddifrif</p>	<p>Mae'r arolwg 'Coronafeirws a fi', ynghyd â gwaith ymgysylltu â'r Senedd leuenctid, gwaith i ystyried gohebiaeth/cwestiynau gan ddysgwyr, a chyfraniadau gan y rheini sy'n gallu cynrychioli barn dysgwyr (e.e. rhieni, ymarferwyr a'r Comisiynydd Plant) wedi helpu i sicrhau bod safbwyntiau plant wedi cael eu hystyried yn y broses o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau hyd yn hyn.</p> <p>Mae'r <a href="#">canllawiau dysgu</a> ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn nodi'n glir y dylai llesiant fod wrth wraidd gwaith i ailennyn diddordeb dysgwyr. Fel rhan o hyn mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser i ddysgwyr drafod a mynegi eu profiadau, a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a bod pobl yn gwrandao arnynt.</p>
14	<p>(rhyddid meddwl, cred a chrefydd)</p> <p>Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu beth bynnag mae'n ei ddymuno a hefyd yr hawl i arfer ei grefydd, ar yr amod nad yw'n atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.</p> <p>Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni i arwain eu plentyn wrth iddo dyfu i fyny.</p>	<p>Ni fydd gan unrhyw rai o'r penderfyniadau polisi a nodir uchod ac yn Adran 1 effaith benodol mewn perthynas â rhyddid meddwl, cred a chrefydd.</p> <p>Mae'r <a href="#">canllawiau dysgu</a> yn amlinellu bod angen i ymarferwyr ystyried sut i gefnogi pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr a all fod yn bryderus am ddychwelyd, y rhai a all fod wedi treulio cyfnod estynedig mewn cartref nad yw'n cefnogi eu credoau, neu'r rhai sy'n teimlo bod y syniad o ddychwelyd yn fygythiol; a'u cefnogi gyda'r broses o'u hintegreiddio mewn lleoliad addysg ffisegol. Mae sgysrsiau am sut mae dysgwyr yn teimlo yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn ac mae staff mewn ysgolion a lleoliadau yn cael eu harwain i annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon.</p>
17	<p>Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i gyflwyno gwybodaeth y gall plant ei deall.</p>	<p>Gofynnodd yr arolwg 'Coronafeirws a fi' sut roedd plant a phobl ifanc yn dewis cael gafael ar ffynonellau gwybodaeth, a chafwyd y canlyniadau canlynol: drwy aelodau o'r teulu (76%), ar y teledu (65%) a drwy'r ysgol (20%). Nododd 3% o'r ymatebwyr nad oeddent yn cael unrhyw wybodaeth. Roedd gan y bobl ifanc a lenwodd yr holiadur 12-18 oed ffynonellau gwybodaeth tebyg, ond roeddent yn fwy tebygol o</p>



		<p>gael gwybodaeth ar-lein oddi ar wefannau ac o gyfrifon newyddion.</p> <p>Mae'r dull o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau yn un proffil uchel ac mae'n cael ei drafod yn helaeth gan amrywiaeth o gwmnïau'r cyfryngau. Mae camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau mynediad parhaus at wybodaeth ddibynadwy a hygyrch yn cynnwys cyfranogiad y Gweinidog Addysg mewn sesiynau Holi ac Ateb gyda phlant a phobl ifanc. Rydym hefyd yn cyhoeddi datganiadau rheolaidd i'r wasg, negeseuon ysgrifenedig a negeseuon fideo ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr neu eu rhieni / gofalwyr, ac adroddiadau sy'n ymwneud â phenderfyniadau a gwybodaeth ffeithiol am ein hymateb i bandemig COVID-19.</p> <p>Rydym yn parhau i gyhoeddi Cwestiynau Cyffredin am yr ymateb i bandemig COVID-19 a'r camau a gymerwyd yn y sector addysg. Caiff hyn ei lywio gan ohebiaeth ac ymholiadau drwy'r ganolfan Pwynt Cyswllt Cyntaf, y daw rhai ohonynt gan blant.</p> <p>Mae canllawiau i ysgolion a lleoliadau ynghylch y sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' yn cynnwys cyfathrebu â dysgwyr, rhieni a gofalwyr.</p>
18	<p>Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plentyn, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn bob amser. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy greu gwasanaethau cymorth ar gyfer plant a rhoi'r help sydd ei angen ar rieni i fagu eu plant.</p>	<p>Rydym yn cydnabod bod dulliau cyfathrebu rhwng y Llywodraeth, ysgolion a lleoliadau, a rhieni / gofalwyr a'u plant wedi bod yn hollbwysig drwy gydol y broses wrth lywio'r dull o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.</p> <p>Er mwyn llywio syniadau, sefydlwyd Panel Cyngori i Rieni a Gofalwyr i roi adborth ar deimladau ynghylch yr egwyddorion arweiniol sy'n sail i'r fframwaith penderfyniadau a rhannu barn ar amrywiaeth o faterion cysylltiedig. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i lywio canllawiau i ysgolion a lleoliadau ynghylch y ffordd maent yn cyfathrebu â rhieni / gofalwyr ac ati.</p> <p>Mae dulliau cyfathrebu wedi'u targedu at rieni / gofalwyr yn parhau, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thudalennau gwe penodol.</p>
19	<p>(diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod)</p> <p>Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu rhag pob math o drais, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.</p>	<p>I rai plant, gall peidio â bod yn eu hysgol neu eu lleoliad fod yn arbennig o niweidiol oherwydd natur eu hamgylchedd cartref. Bydd gan blant amgylcheddau gwahanol yn eu cartrefi a byddant wedi cael profiadau gwahanol yn ystod y cyfyngiadau symud, a bydd dechrau'r broses o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau yn helpu i ganfod a dechrau lliniaru effeithiau negyddol. Felly disgwylir i'r polisïau a nodir uchod ac yn Adran 1 yr Asesiad Effaith Integredig hwn ymdrin â'r erthygl hon yn benodol.</p>

		<p>Wrth ddatblygu hyn, mae canllawiau yn atgoffa staff mewn ysgolion a lleoliadau o'u dyletswyddau diogelu <a href="#">Cadw dysgwyr yn ddiogel</a> a <a href="#">Gweithdrefnau Diogelu Cymru</a> . Mae rôl yr unigolyn diogelu dynodedig yn hollbwysig a dylai'r holl staff a dysgwyr wybod pwy yw'r unigolyn hwn a sut i gysylltu ag ef. Gall fod yn anos cael gafael ar oedolyn yr ymddiriedir ynddo, neu'r unigolyn diogelu dynodedig, o ystyried y rheolau cadw pellter cymdeithasol, felly gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau ystyried sut y gall dysgwyr siarad yn breifat.</p> <p>Yn ystod y camau cynnar, dylai ysgolion, lleoliadau a gwasanaethau plant barhau i gydweithio'n agos i sicrhau bod pob plentyn a theulu yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen. Bydd gan awdurdodau lleol amrywiaeth o arferion gwaith i sicrhau bod partneriaid diogelu yn gallu cydweithio i gadw plant yn ddiogel. Mae cyfle nawr i gyfnerthu'r arferion gwaith hyn ymhellach.</p>
23	<p>Mae gan blant anabl hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac annibyniaeth, i'r graddau mwyaf posibl, yn ogystal â chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.</p>	<p>Rydym wedi sicrhau bod ysgolion yn aros ar agor i blant sy'n agored i niwed ac mae hyn yn cynnwys y rheini sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae awdurdodau lleol yn parhau i flaenoriaethu'r rhai sydd â'r angen mwyaf mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon.</p> <p>Mae <a href="#">canllawiau</a> pellach wedi'u cyhoeddi i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i gynllunio ar gyfer dychwelyd dysgwyr ag AAA o fis Medi; a hefyd i gynllunio ar gyfer parhad eu dysgu os bydd cyfyngiadau symud cenedlaethol neu leol yn y dyfodol.</p>
24	<p>Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a llesiant fel y gall plant aros yn iach.</p>	<p>Mae'r erthygl hon wedi cael ei chydnabod a'i hamlygu drwy'r pwyslais a roddir ar iechyd a llesiant wrth i ddysgwyr ddychwelyd i'w hysgolion/lleoliadau fis Medi.</p> <p>Mae'r <a href="#">canllawiau dysgu</a> i ysgolion a lleoliadau yn cydnabod nad ydym yn sôn am risgiau corfforol dal haint COVID-19 yn unig pan fyddwn yn cyfeirio at iechyd a llesiant. I ddysgwyr, bydd goblygiadau corfforol, meddyliol ac emosiynol ehangach a goblygiadau o ran cydberthnasau yn sgil cadw pellter cymdeithasol, cyfyngiadau symud a phroffedigaeth o bosibl, yn llawer mwy perthnasol.</p>
28	<p>Mae gan bob plentyn yr hawl i gael addysg.</p>	<p>Mae'r hawl hon wedi bod yn un o'r ysgogwyr sylfaenol y tu ôl i'r penderfyniad i gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.</p>

		<p>Mae'r <a href="#">canllawiau dysgu</a> yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan ymarferwyr ar gyfer tymor yr haf. Yn ogystal â'r pwyslais ar lesiant, dylai ysgolion a lleoliadau ddechrau ehangu dysgu ac addysgu, fel y bo'n briodol. Dylai hyn gynnwys cefnogi trefniadau pontio fel bod dysgwyr (cyn belled ag y bo modd) yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ac yn barod i ymgysylltu â dull dysgu cyfunol. Disgwylir i ysgolion a lleoliadau ddatblygu gweithgareddau dysgu a dulliau newydd i ddiwallu anghenion eu holl ddysgwyr mewn ymateb i'r pandemig, gan roi ystyriaeth arbennig i'r rheini nad ydynt yn gallu mynychu sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' y tymor hwn am ba reswm bynnag. Mae'r canllawiau yn glir bod gan bob dysgwr hawl i gael cymorth gyda'i ddysgu gan weithwyr proffesiynol yr ymddiriedir ynddynt yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>Mae <a href="#">canllawiau atodol</a> wedi'u cyhoeddi sy'n cynnwys cyngor penodol i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed a dysgwyr sydd o dan anfantais. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau dull cynhwysol o weithredu'n llawn o fis Medi 2020.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, mae adnoddau'n cael eu darparu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â chael mynediad at ddysgu o bell. Gan symud ymlaen i'r hydref, mae ystyriaethau pellach ar waith mewn perthynas â'r ffordd rydym yn cefnogi grwpiau penodol o ddysgwyr ac yn diwallu eu hanghenion er mwyn sicrhau y gallant wneud cynnydd yn eu dysgu. Mae'r ystyriaethau hyn (a gaiff eu cwmpasu mewn diweddariad i'r Aseiad Effaith Integredig) yn cynnwys clustnodi cyllid ychwanegol wedi'i dargedu.</p> <p>Bydd rhai ysgolion yn cau am wythnos ychwanegol yn hanner tymor mis Hydref, o ganlyniad i'r wythnos ychwanegol a ddarparwyd mewn rhai ysgolion ar ddiwedd tymor yr haf. Bydd 'Recrwtio, Adfer, Codi Safonau' yn gwneud rhywfaint i liniaru colli dysgu ychwanegol yn nhymor yr hydref.</p>
29	<p>(nodau addysg)</p> <p>Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn yn llawn. Rhaid iddi annog parch y plentyn tuag at hawliau dynol, ynghyd â pharch tuag at ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwyllianau eraill, a'r amgylchedd.</p>	<p>Mae'r erthygl hon wrth wraidd addysg yng Nghymru, a phedwar diben y cwricwlwm sy'n sail i'n rhaglen diwygio addysg. Wrth i fwy o ddysgwyr ddychwelyd i amgylchedd ffisegol yr ysgol, bydd ymarferwyr yn datblygu gweithgareddau dysgu a dulliau newydd i ddiwallu anghenion eu dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig. Wrth wneud hynny, cyfeirir ymarferwyr at yr ystod lawn o ganllawiau cwricwlwm sydd bellach ar gael iddynt, gan gynnwys y ffordd y gall y Cwricwlwm i Gymru gefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod hwn.</p>

<p><b>30</b></p>	<p>(plant o grwpiau lleiafrifol neu gynhenid)</p> <p>Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd ei deulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan y mwyafrif o'r bobl yn y wlad ble maent yn byw neu beidio.</p>	<p>Ni fwriedir i'r penderfyniadau polisi a nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant uchod ac yn Adran 1 o'r Asesiad Effaith Integredig hwn gael effaith gadarnhaol na negyddol mewn perthynas â'r erthygl hon. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod rhai effeithiau gwahaniaethol i rai grwpiau penodol o bobl yn sgil y cyfyngiadau symud a fydd yn gofyn am fesurau penodol wrth i'r gwaith o gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau fynd rhagddo.</p> <p>Mae'r <a href="#">canllawiau dysgu</a> yn amlinellu y bydd angen i ymarferwyr ystyried sut i gefnogi <u>pob</u> dysgwr; a'u cefnogi gyda'r broses o'u hintegreiddio mewn lleoliad addysg ffisegol. Bydd sgysiau â dysgwyr am sut maent yn teimlo yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn a dylai staff annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ynghylch dysgu Cymraeg a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn agos.</p>
<p><b>31</b></p>	<p>(chwarae, hamdden a diwylliant)</p> <p>Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol.</p>	<p>Dylai'r effaith negyddol ar lesiant diwylliannol a welwyd yn ystod y cyfyngiadau symud leihau wrth i'r mesurau i ymateb i COVID-19 gael eu llacio ac wrth ddysgwyr ddychwelyd i'w hysgolion a lleoliadau ym mis Medi. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd llai o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon a hamdden am beth amser eto. Gellid lliniaru hyn i ryw raddau drwy rôl chwarae a dysgu yn yr awyr agored; y gofynnwyd i ymarferwyr eu hystyried drwy ganllawiau. Mae chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i gefnogi dysgu yn ogystal â gwella cydberthnasau dysgwyr a'u llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Dylid felly ystyried eu bod wrth wraidd unrhyw ddull o ddychwelyd yn raddol.</p>